# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Dilynwch y dolenni ynghlwm wrth y penawdau i ddod o hyd i Ganllawiau Cyffredinol neu ganllaw penodol ar yr adran ynghyd ag enghraifft.**

**Mae gwybodaeth ategol ar gael yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllaw.**

**Pan fyddwch yn dechrau asesu eich cynnig, gwnewch drefniant i gwrdd â Tim Greaves, y Cydlynydd Cydraddoldeb, i gael canllaw penodol. Ar ôl cwblhau'r ffurflen, anfonwch hi ato ef i fwrw golwg arni ac er mwyn ei alluogi i'w chyhoeddi ar dudalennau gwe cydraddoldeb Bro Morgannwg.**

**Cysylltwch â Tim Greaves hefyd os oes angen y ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hon arnoch mewn fformat gwahanol.**

## 1. Beth ydych chi'n ei asesu?

| |
|---|
| Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro drwy wneud y canlynol:<br><br>1. Creu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd gydag ysgol feithrin gydag 48 o leoedd amser<br>ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws.<br><br>2. Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r<br>adeilad ysgol newydd.<br><br>3. Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 - 11 oed i 3 -11 oed. |

| |
|---|
| Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro drwy wneud y canlynol: |

| |
|---|
| 1. Creu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd gydag ysgol feithrin gydag 48 o leoedd amser<br>ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws.<br><br>2. Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r<br>adeilad ysgol newydd.<br><br>3. Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 - 11 oed i 3 -11 oed. |

## 2. Pwy sy'n gyfrifol am hyn?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | Lisa Lewis | **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau |
| **Tîm** | Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | **Cyfarwyddiaeth** | Dysgu a Sgiliau |

## 3. Pryd gaiff yr asesiad ei gyflawni?

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | 21 Mai 2018 |

## 4. Disgrifiwch y cynnig.

| |
|---|
| **Beth yw diben y cynnig?**<br><br>Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau bod ysgolion yn parhau'n gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posib.<br><br>Ym mis Mawrth 2018, lansiodd y Cyngor ymgynghoriad newydd â'r bwriad o gael golwg cyfannol ar<br>y ddarpariaeth Gynradd yng Ngorllewin y Fro Nod yr ymgynghoriad oedd<br>oedd rhoi gwybod i'r gymuned am y cynnig ad-drefnu ysgolion arfaethedig i adeiladu ysgol newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, gyda 48 o leoedd meithrin rhan amser yn y Rhws, a cheisio adborth ar y cynnig hwn.<br><br>Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cododd y gymuned nifer o bryderon ynghylch yr effaith ar eu hardaloedd lleol, yn ogystal â gofyn cwestiynau ychwanegol am y cynnig wrth geisio sicrhau y deallid eu barn. |

O ganlyniad i'r adborth cynhaliodd y Cyngor ail ymgynghoriad a ddechreuodd ar 21 Mai 2018. Roedd y Cyngor yn ystyried ei bod yn bwysig cynnwys mwy o fanylion yn y ddogfen ymgynghori a rhoi'r cyfle i randdeiliaid eu hystyried o fewn amserlen newydd. Roedd y Cyngor yn croesawu adborth ychwanegol gan unigolion neu sefydliadau ar y wybodaeth a oedd wedi'i gynnwys yn yr ail ymgynghoriad iddo fwrw ati i wneud penderfyniad.

Mae'r adborth ar safbwyntiau a fynegwyd yn y ddau ymgynghoriad yn cael eu hasesu gyda'i gilydd mewn adroddiad ymgynghori bwriedir ei gyhoeddi mewn cysylltiad â'r cynnig, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn.

Mae'r cynnig yn cynnwys adeiladu ysgol newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, ynghyd â 48 o leoedd meithrin rhan amser yn y Rhws. Cynigir y bydd yr holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr o Ysgol Gynradd Llancarfan yn symud i'r adeilad ysgol newydd.

Mae'r Ymgynghoriad yn amlinellu cynigion y Cyngor i wneud y canlynol:

- Creu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd gydag ysgol feithrin â 48 o leoedd rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws

- Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd

- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 -11 oed i 3 -11 oed.

Byddai'r holl staff a'r disgyblion yn trosglwyddo i'r adeilad ysgol newydd a byddai'r corff llywodraethu yn parhau'r un fath. Byddai angen gwneud gwaith cynllunio a rheoli gofalus mewn cysylltiad â'r trefniadau pontio er mwyn lliniaru'r heriau o ran disgyblion yn symud i'r ardal rhwng 2018 a 2021, gan sicrhau nad oes unrhyw anfantais i ddisgyblion sy'n symud i'r adeilad ysgol newydd neu effaith negyddol ar berfformiad da presennol Ysgol Gynradd Llancarfan.

**Pam fod angen rhoi hyn ar waith?**

Mae safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan yn cynnwys adeilad ysgol Fictoraidd gwreiddiol yn cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Mae gan yr adeilad waliau cerrig cadarn a tho teils. Mae dau floc dros dro ar wahân y safle, un gyda dosbarth sengl ac un gyda dosbarth dwbl, ill dau mewn cyflwr da. Hefyd, mae bloc a adeiladwyd ym 2000 ac a estynnwyd yn 2006 sy'n cynnwys neuadd, ceginau, ystafell ddosbarth fach ac ystafell athrawon.

Mae'r ysgol ar safle bach ond yn gallu defnyddio cyrtiau'r clwb tennis cyfagos. Nid yw'r ysgol yn bodloni'r safonau adeiladu cyfredol ac yn dilyn ystyried maint a lleoliad cyfyngedig y safle, nid yw'n bosib codi ysgol newydd yn y safle presennol. Mae her ychwanegol mewn perthynas â mynediad anodd i'r ysgol sy'n dagfa drwy'r pentref a'r lonydd yn arwain at Lancarfan. Nid yw'r pedwar adeilad ar wahân a'r safle bach ar

ogwydd yn bodloni safonau canllawiau dylunio Ysgolion y 21 Ganrif ar gyfer ysgolion cynradd sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer yr holl adeiladau newydd a gwblhawyd drwy raglen Ysgolion y 21 Ganrif y Cyngor. Mae'r ysgolion dan sylw yn cynnwys adeilad un llawr neu ddeulawr cwbl hygyrch sy'n cynnig yr holl swyddogaethau addysgol sy'n ofynnol mewn un adeilad ar diroedd sy'n bodloni anghenion cwricwlwm awyr agored cyfredol.

Ym mis Mai 2018, roedd yr ysgol yn gweithredu gyda 25 o leoedd gwag (19.8%) a fydd yn cynyddu i 43 o leoedd gwag (34%) dros y cyfnod pum mlynedd nesaf. Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion er mwyn bwrw targed y cytunwyd arno ac a bennwyd ar sail gofyniad Llywodraeth Gymru er mwyn sicrhau y caiff addysg ei ddarparu'n effeithlon. Yn y sector cynradd, mae hyn gyfystyr â tharged cytunedig o ddim mwy na 10%.

Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi dyrannu cyfanswm o 787 o anheddau newydd yn y Rhws. Mae'r dyraniad yn cynnwys 87 o anheddau ar dir i'r de o'r Rheilffordd, a 700 o anheddau newydd ar dir i'r gogledd o'r Rheilffordd. Yn seiliedig ar yr amcanestyniadau cyfredol i gynnwys y ddau ddatblygiad tai, erbyn 2023 rhagwelir y bydd diffyg o 90 o leoedd ysgol gynradd yn ardal y Rhws. Mae tua 35% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw yn ardal y Rhws.

Er mwyn bodloni'r galw yn y dyfodol, sicrhau'r gwaith o ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau a lleihau nifer
y lleoedd gwag cyffredinol yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru, cynigir symud Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad ysgol newydd, mwy yn y datblygiad yn y Rhws. Caiff y dalgylchoedd eu hailddiffinio i osod Llancarfan, Moulton, Llanbydderi a Llanbydderi yn y dalgylch newydd ar gyfer yr ysgol. Cynigir y byddwn hefyd yn ail-alinio'r dalgylchoedd newydd yn y Rhws.

Mae'r cynnig hwn yn creu cyfle unigryw nid yn unig i symud Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer y 21 Ganrif ond hefyd cynnig lleoedd i blant o'r datblygiad tai newydd yn y Rhws. Mae nifer y lleoedd yn yr ysgol gynradd bresennol yn y Rhws yn brin ac ni fydd yn gallu cynnig lleoedd i'r plant hyn. Mae Ysgol gynradd y Rhws tua milltir o leoliad arfaethedig safle'r ysgol newydd.

**Oes angen i ni neilltuo adnoddau sylweddol ar gyfer hyn (megis arian neu amser staff)?**

Amcanir y bydd y cyllid cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd ar safle maes glas gan gynnwys gosod cyfleustodau a phriffyrdd, yn £4.185 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £2.0925 miliwn o arian cyfatebol Band B Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif ar gyfer y project hwn. Bydd cyfanswm o £1.639 miliwn o gyfraniadau Adran 106 ar gyfer cyfleusterau addysgol yn y Rhws yn deillio o ddau ddatblygiad. Bydd gweddill yr arian yn dod o gyllid cyfalaf y Cyngor.

Aed i'r afael ag amser Swyddogion drwy greu Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Beth yw canlyniadau bwriadedig y cynnig?**

Byddai symud yr ysgol i adeilad mwy gyda dalgylch newydd a niferoedd cynaliadwy yn gwneud y canlynol:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.
- Byddai'r cynnig yn cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Sefydlu uned feithrin sy'n cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer darparu addysg ar gyfer y 21 Ganrif sy'n bodloni'r safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau costau parhaus ac ôl troed carbon adeiladau addysg. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ac yn cael eu hadeiladu i safon 'A' EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Datblygu ethos a diwylliant yr ysgol ymysg plant ieuengach, gan arwain at berthnasoedd rhyngbersonol effeithiol a lefel hunan-barch uwch.
- Cynnig dull cyson o 3-11 mlwydd oed a fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.
- Byddai'r holl waith o gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau adnoddau yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad disgyblion blaenorol ac ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus.
- Helpu disgyblion i feithrin eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso eu gwybodaeth am bynciau yn fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.
- Gwella'r trefniadau da sydd eisoes ar waith o ran gofalu, helpu a chyfarwyddo disgyblion o oedran ieuengach.
- Ymestyn a sefydlu perthnasoedd â theuluoedd o'r cyfle cyntaf i gryfhau'r pontio o'r cartref i'r ysgol.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rheiny sydd â nodweddion a ddiogelir gwahanol.

**Ar bwy mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt?**

Yr holl staff, disgyblion, rhieni disgyblion a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llancarfan ar y dyddiad y bwriedir iddynt symud i'r adeilad ysgol newydd gwell yn y Rhws. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn symud ym mis Medi 2021.

Yn ogystal, os rhoddir y cynnig ar waith byddai'n darparu ysgol leol ar gyfer y gymuned yn y Rhws a'r ardaloedd cyfagos sy'n tyfu, gan sicrhau y gall y rhan fwyaf o'r disgyblion gael eu haddysgu mewn ysgol yn eu cymuned.

**A fydd y cynnig yn effeithio ar ddulliau gwaith sefydliadau eraill?**

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol. Er bod y Cyngor yn cynyddu nifer y lleoedd, ni fydd yr ysgol gynradd bresennol yn ardal y Rhws yn gallu bodloni'r galw am leoedd ysgol o'r datblygiad tai newydd.

Mae'r ysgol gynradd bresennol yn y Rhws bron yn llawn. Cyflwynwyd y cynnig hwn i fodloni'r galw yn y dyfodol, sicrhau'r gwaith o ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosib a lleihau nifer y lleoedd gwag cyffredinol yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru. Byddai'r dalgylchoedd yn cael eu hailddiffinio er mwyn dosbarthu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan rhwng yr ysgol yn ei safle newydd yn y Rhws ac ysgolion cynradd Llanfair a Sain Niclas. Byddai'r ysgol yn ei safle newydd yn cadw ardal Llancarfan, Moulton, Llanbydderi a Llancatal yn ei dalgylch presennol a hefyd yn cynnwys rhan o ddalgylch presennol y Rhws. Byddai gweddill dalgylch Llancarfan, sef Tre Aubrey a Whitton, yn cael eu hailddosbarthu rhwng ysgolion cynradd Llanfair a Sain Nicolas. Disgwylir y bydd adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion hefyd yn cynyddu niferoedd y disgyblion mewn ysgolion eraill gan wella cynaliadwyedd yr ysgolion hynny ar gyfer y dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau nifer y lleoedd gwag yn ei ysgolion. Ar hyn o bryd mae 10% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Sain Nicolas yn byw yn ei dalgylch ac mae 16% o ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanfair yn y byw yn ei dalgylch.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Llancarfan ac yn yr ardal gyfagos. Bydd nifer y lleoedd meithrin cyffredinol sydd eu hangen yn yr ardal yn cynyddu i tua 70 o leoedd yn sgil y datblygiadau tai newydd sydd ar y gweill. Disgwylia'r Cyngor y bydd lleoedd ar gael yn Ysgol Gynradd y Rhws ac Ysgol Gynradd Llancarfan i fodloni'r galw ychwanegol.

**Sut fydd y cynnig yn effeithio ar eich dull o ddarparu gwasanaethau?**

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac yn ymateb i'r galw. Mae angen i fodloni'r galw am leoedd yn y dyfodol o'r datblygiadau tai newydd yn y Rhws. Byddai ysgol gyda 210 o leoedd, sef y maint lleiaf o ran sicrhau ysgol gynaliadwy a hefyd yr ysgol leiaf y byddai'r Cyngor yn ei hadeiladu o bersbectif cynaliadwyedd, yn cynnig lle i'r cynnydd rhagamcannol yn nifer y disgyblion o ddatblygiadau newydd yn y Rhws, yn ychwanegol i nifer rhagamcannol y disgyblion a fyddai'n symud o safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae adolygu anghenion ehangach Gorllewin y Fro yn cynnig cyfle i sefydlu adeilad ysgol y 21ain Ganrif wrth fynd i'r afael ag anghenion y gymuned a nifer y lleoedd gwag.

Byddai'r holl staff a'r disgyblion yn symud i'r adeilad ysgol newydd a byddai'r corff llywodraethu yn parhau'r un fath. Byddai angen gwneud gwaith cynllunio a rheoli gofalus mewn cysylltiad â'r trefniadau pontio er mwyn lliniaru'r heriau o ran disgyblion yn symud i'r ardal rhwng 2018 a 2021, gan sicrhau nad oes unrhyw anfantais i ddisgyblion sy'n symud i'r adeilad ysgol newydd neu effaith negyddol ar berfformiad da presennol Ysgol Gynradd Llancarfan.

Nid oes modd rhagweld anghenion y gymuned ysgol newydd a fydd yn mynychu'r ysgol hon yn y dyfodol, fodd bynnag, mae llawer o wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r boblogaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r wybodaeth hon ar gael o'r ffynonellau canlynol:

Amcanestyniadau aelwydydd fesul awdurdod lleol
https://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-en.pdf

Tueddiadau'r boblogaeth yn y dyfodol https://www.slideshare.net/StatisticsWales/welsh-government-future-trends-report-2017-population

Amcanestyniadau poblogaeth ONS 2016 2016 (row 392 code W06000014)
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls

Data nodweddion a ddiogelir o Gyfrifiad 2011
https://gov.wales/statistics-and-research/census-population/?skip=1&lang=cy

**A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisïau neu arferion eraill?**

Mae'r cynnig yn rhan o Raglen Amlinelliad Strategol ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif. Bydd y gwaith o redeg yr ysgol yn parhau i gael ei hategu gan lawer o bolisïau a gweithdrefnau. Bydd rhaid i'r corff llywodraethu barhau i gydymffurfio â'r holl bolisïau, gan gynnwys polisïau'r Cyngor a Pholisïau Cydraddoldeb ysgolion. Bydd gan bob ysgol ran i'w chwarae yn y gwaith i fodloni'r amcanion cydraddoldeb y mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn gyfrifol amdanynt ac ategu'r perfformiad yr adroddwyd amdano yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol pan fo'n briodol.

**Oes modd i chi newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda ymhellach?**

Mae'r cynnig a roddir gerbron yn cynnwys adeiladu ysgol newydd gyda 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan, ynghyd â 48 o leoedd meithrin rhan amser yn y Rhws. Cynigir y bydd yr holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr o Ysgol Gynradd Llancarfan yn symud i'r adeilad ysgol newydd. Caiff yr adeilad ei ddylunio i wella hygyrchedd a hyrwyddo cyfle cyfartal o ran yr addysg a gynigir i fwy o ddisgyblion o ystod oedran ehangach. Bydd yn cynnig gwell cyfleusterau i'r ysgol a fyddai'n ei galluogi i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rheiny sydd â nodweddion a ddiogelir gwahanol. Mae ystyriaeth benodol i adborth mewn perthynas â disgyblion ag anableddau wedi'i fwydo i mewn i'r ddogfen ymgynghori ac yn ei dro caiff ei adlewyrchu yn y dyluniad ar gyfer yr adeilad newydd.

Mae ein proses ymgynghori ffurfiol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Byddwn yn gofyn i ystod eang o unigolion a grwpiau fynegi eu barn am y cynigion hyn yn ystod y cyfnod 21 Mai tan 9 Gorffennaf. Mae'r holl ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad blaenorol ym mis Mawrth/Ebrill 2018 wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori ac mae dadansoddiad o nodweddion a ddiogelir yr ymatebwyr i'r ddau ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn yr asesiad

hwn. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb ynddo fynegi eu barn a safbwyntiau ar y cynigion presennol..

Mae’r Cyngor wedi ymgynghori gyda’r grwpiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff (staff dysgu a staff nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd Llancarfan | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy’n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan | Cyngor Cymuned Llancarfan |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr lleol |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau’r Cynulliad Rhanbarthol | Comisiynydd yr Iaith Gymraeg |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Estyn | Undebau Llafur |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Cyfarwyddwyr Addysg - yr holl Awdurdodau cyfagos |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | |

**Sut fyddwch chi’n cyflawni’r newidiadau a gynigir?**

Dechreuodd yr ail gyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig ar 21 Mai 2018 a daeth i ben ar 9 Gorffennaf 2018.

Cyn pen 13 wythnos o 9 Gorffennaf caiff adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi ar wefannau’r Cyngor a'r ysgol dan sylw. Bydd copïau caled o’r adroddiad hefyd ar gael gan swyddfa’r ysgol ar gais. Bydd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o’r materion a godwyd gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac ymatebion i’r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynigion. Ym mis Medi 2018 bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu p’un ai i fwrw ymlaen a’r cynigion neu beidio.

Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion bydd rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad statudol.

Mae cynigion y Cyngor yn golygu y byddai'r holl ddisgyblion, staff a llywodraethwyr yn symud i'r safle ysgol newydd gydag uned feithrin ychwanegol ym mis Medi 2021. Cynigir y bydd y trefniadau derbyn dros dro yn berthnasol i ddisgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl iddynt symud i'r ysgol newydd. Bwriad y Cyngor yw anrhydeddu trefniadau bwydo a chysylltiadau'r dalgylch â'r Bont-faen ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan sydd ar gofrestr yr ysgol ar adeg y symud nes byddant yn gadael. Byddai unrhyw ddisgyblion sy'n ymuno ag Ysgol Gynradd Llancarfan ar ôl iddi symud yn dilyn y trefniadau derbyn cytunedig sydd ar waith ar y pryd.

Darperir cludiant ar hyn o bryd i ddisgyblion sy'n teithio i Lancarfan o ardal y Rhws a'r Bont-faen. Bydd y trefniant hwn yn parhau ar gyfer y plant hynny sy'n bodloni'r maen prawf cymhwysedd o ddwy filltir ar gyfer cludiant i'r ysgol am ddim i blant oedran cynradd.

**Pwy fydd yn cyflawni'r cynnig?**

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, caiff buddsoddiad cyfalaf sylweddol ei wneud er mwyn sefydlu adeilad ysgol newydd i Ysgol Gynradd Llancarfan. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am reoli'r broses a bydd y corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau, gan gynnwys, pan fo'n briodol, gwneud addasiadau i ddyluniad yr adeilad i sicrhau cyfle cyfartal o ran profiadau addysgu a dysgu. Bydd y Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwaith adeiladu.

Byddai'r adeilad hwn yn cael ei gyflawni gyda phartneriaid allanol gan y tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau fel rhan o Raglen Ysgolion y Cyngor yn dilyn ei gais llwyddiannus am gyllid fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r projectau yn destun ymgynghoriadau statudol ac achosion busnes trwyadl fel sy'n ofynnol gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion a Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladau ysgolion ledled Cymru. Mae'n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Mae holl brojectau Cyngor Bro Morgannwg a gyflawnwyd fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'u cwblhau yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb oedd ar gael.

**Sut fyddwch chi'n gwybod os ydych wedi cyflawni diben y cynnig?**

Bydd y Cyngor wedi penderfynu ar y cynnig ac wedi gwneud y canlynol: • Creu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd gydag ysgol feithrin â 48 o leoedd rhan amser ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws

- Symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd
- Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Llancarfan o 4 -11 oed i 3 -11 oed.

Gallai'r Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynigion gydag

addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol sydd wedi dod i law.

## 5. Pa dystiolaeth ydych chi yn ei defnyddio?

**Ymgysylltu (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**

Roedd y prosesau ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o ymgyngoreion statudol a amlinellir yn y Cod ac sy'n ofynnol ganddo.

Daeth 1136 o ymatebion unigol i law'r awdurdod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad cyntaf ar 20 Ebrill a'r ail ymgynghoriad ar 9 Gorffennaf 2018. O'r 1136 o ymatebion ddaeth i law roedd 82 o blaid y cynnig, 1046 yn erbyn y cynnig, ac ni roddodd 8 unrhyw farn y naill ffordd na'r llall. Daeth ymateb ffurfiol i law gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Llancarfan ac Estyn.

Nodwyd na roddodd pob un o'r ymgyngoreion ateb i bob cwestiwn a bod rhai ffurflenni'n anghyflawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymateb i'r cwestiynau y dewisont eu hateb. Pan fo hynny wedi'i nodi, mae nodweddion a ddiogelir yr ymatebwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Nid yw adborth yn deillio o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oherwydd nodwyd yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond yr ymatebion a gofnodwyd ar ffurflen ymatebion swyddogol yr ymgynghoriad y byddai'r Cyngor yn eu derbyn. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r ymgyngoreion yn y sesiynau galw heibio. Roedd y prosesau ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod eang o ymgyngoreion statudol a amlinellir yn y Cod ac sy'n ofynnol ganddo.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gam ffurfiannol a oedd yn galluogi'r gwaith o sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae amserlenni'r ymgynghoriad yn cydymffurfio a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roedd yn rhoi 7 wythnos i ymgyngoreion ystyried a pharatoi ymateb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adborth ac ymatebion a ddaeth i law drwy'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cynnig, roedd hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â disgyblion Ysgol Gynradd Llancarfan. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau galw heibio gan wahodd rhanddeiliaid i'w mynychu fel rhan o'r broses.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau ffurflen Monitro Cydraddoldeb a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Daeth 1136 o ymatebion i law'r Cyngor ar gyfer y ddau ymgynghoriad un ai drwy'r post neu ar-lein. Y dyddiadau cau ar gyfer dychwelyd y

| |
|---|
| ffurflenni oedd 20 Ebrill a 9 Gorffennaf 2018.<br><br>Bwriedir mynd i'r afael â nifer o themâu a gyflwynwyd fel rhan o'r broses a'u cynnwys mewn adroddiad ymgynghori i'w roi gerbron y Cabinet ar y cynnig. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi adroddiad ymgynghori ar y cynnig.<br><br>Roedd rhiant mewn un o'r digwyddiadau ymgynghori yn bryderus ynghylch rhai plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cael mwy o fudd o fod mewn ysgol fach. Roeddent yn teimlo bod eu plentyn, sy'n awtistig, angen amgylchedd dysgu bach a thawel iddo ffynnu.<br><br>Roedd sylwadau eraill a ddaeth i law yn amlygu'r farn y byddai plant yn cael gwell cymorth mewn amgylchedd ysgol bach. |
| **Ymgynghori (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**<br><br>Roedd y prosesau ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, yn cydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o ymgynghoreion statudol a amlinellir yn y Cod ac sy'n ofynnol ganddo.<br>Cynhaliwyd ymgynghoriadau ffurfiol drwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb a ddosbarthwyd yn electronig i ymgyngoreion penodol ac a gyhoeddwyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ar 5 Mawrth ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf a 21 Mai 2018 ar gyfer yr ail ymgynghoriad.<br><br>Cyhoeddwyd dogfennau ymgynghori dwyieithog ar 5 Mawrth 2018 ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf a 21 Mai 2018 ar gyfer yr ail ymgynghoriad a'u dosbarthu ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Rhoddwyd copi electronig o'r dogfennau a dolen i wefan Cyngor Bro Morgannwg i'r ymgynghoreion. Roedd copïau caled ar gael yn yr ysgol a hefyd yn yr holl ddigwyddiadau ymgynghori.<br><br>Gofynnwyd i ymgynghoreion y ddau ymgynghoriad am eu barn ar gwestiwn allweddol:<br><br>• Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i ddarparu adeilad ysgol newydd ag uned feithrin newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan o fis Medi 2021?<br><br>Cynigiwyd y cynnig i ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:<br><br>• Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.<br><br>• Unrhyw sylwadau eraill?<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd ar gyfer y ddau ymgynghoriad gyda staff a llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Llancarfan. Roedd swyddogion y Cyngor yn bresennol yn y ddau gyfarfod. Cynhaliwyd dwy sesiwn galw heibio, ar gyfer y ddau ymgynghoriad, ar gyfer yr holl ran ddeiliaid yn Llancarfan ac yn y Rhws. |

Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ar gyfer y ddau ymgynghoriad gyda'r Cyngor Ysgol yn Ysgol Gynradd Llancarfan gyda golwg ar gynnwys y disgyblion yn y broses ymgynghori.

Roedd y prosesau ymgynghori yn rhoi'r cyfle i ystod o ymgynghoreion a phobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn pawb sydd â diddordeb yn y mater fel y gellid rhoi ystyriaeth iddynt cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Mae manylion o ran nifer yr ymatebwyr a'u nodweddion wedi'i nodi dan y pennawd Ymgysylltu uchod.

**Data a gwaith ymchwil cenedlaethol**

Mae llawer o wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r boblogaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r wybodaeth hon ar gael o'r ffynonellau canlynol:

Amcanestyniadau aelwydydd fesul awdurdod lleol
https://gov.wales/docs/statistics/2017/170323-household-projections-local-authorities-2014-based-en.pdf

Tueddiadau'r boblogaeth yn y dyfodol https://www.slideshare.net/StatisticsWales/welsh-government-future-trends-report-2017-population

Amcanestyniadau o'r boblogaeth Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016
https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls

Data nodweddion a ddiogelir o Gyfrifiad 2011
http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/talk-childcare/?skip=1&lang=cy

Caiff cynnig y Cyngor ei weithredu drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn fuddsoddiad strategol hirdymor mewn adeiladau ysgolion ledled Cymru. Mae'n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Mae pob un o brojectau Cyngor Bro Morgannwg a gyflawnwyd fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'u cwblhau yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb oedd ar gael. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael arian cyfatebol Band B Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif ar gyfer y project hwn.

Mae newidiadau i'r darpariaethau ysgolion, ar ffurf cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion, yn angenrheidiol yn aml fel rhan o gynlluniau awdurdodau lleol yn y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Cyfalaf Addysg.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn cynnwys gofyniad i ymgynghori ynghylch a chyhoeddi, cynigion statudol ar gyfer newid ac mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddilyn y cod. Mae'r Cod yn nodi gofynion ac yn cynnig canllawiau mewn perthynas â chynigion ad-drefnu ysgolion a roddir gerbron i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgol ac ar gyfer y rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gynigion.

| |
|---|
| Mae’r broses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y’u nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion. |
| **Data a gwaith ymchwil lleol**<br><br>Mae’r Cyngor yn defnyddio data demograffig, ysgol a disgyblion cyfredol i lywio’r cynnig. Defnyddiwyd adolygiad data statudol i lywio'r broses.<br><br>Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor wedi dyrannu cyfanswm o 787 o anheddau newydd yn y Rhws. Mae’r dyraniad yn cynnwys 87 o anheddau ar dir i’r de o’r Rheilffordd, a 700 o anheddau newydd ar dir i’r gogledd o’r Rheilffordd. Mae’r dyraniad i’r de o’r Rheilffordd wedi’i gwblhau ac yn cynnwys plant yn y system ysgolion. Mae’r dyraniad ar dir i’r gogledd o’r rheilffordd mewn dau ran:<br><br>• Tir i’r gogledd o’r Rheilffordd (350 o unedau)<br>• Tir i’r gogledd-ddwyrain o’r Rheilffordd (350 o unedau)<br><br>Rhagwelir y bydd y tai ychwanegol o’r datblygiadau dan sylw yn cynyddu’r galw yn yr ardal gan tua 70 o leoedd i blant oedran meithrin, 194 o leoedd i blant oedran cynradd, 162 o'r rhain sy’n debygol o fod angen darpariaeth cyfrwng Saesneg, ac 174 o leoedd ar gyfer plant oedran uwchradd. Yn seiliedig ar yr amcanestyniadau cyfredol i gynnwys y ddau ddatblygiad tai, erbyn 2023 rhagwelir y bydd diffyg o 90 o leoedd ysgol gynradd yn ardal y Rhws.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Llancarfan boblogaeth o 55 o blant oedran cynradd yn y dalgylch, a chapasiti o126 o leoedd. Dim ond 29 o’r 55 o blant oedran cynradd sy’n byw yn y dalgylch sy’n mynychu’r ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol yn byw y tu allan i’r dalgylch. Roedd 101 o blant ar y gofrestr ym mis Mai 2018 ac mae 29 (29%) o’r rheiny yn byw o fewn dalgylch yr ysgol. Mae’r 72 o blant (71%) sy’n weddill yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae 35 (49%) o’r 72 o ddisgyblion sy'n byw y tu allan i’r dalgylch yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd y Rhws.<br><br>Dros y tair blynedd ddiwethaf, ar gyfartaledd mae 4 o blant wedi cael eu geni yn nalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan bob blwyddyn o gymharu â’r 18 o leoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynnig symud Ysgol Gynradd Llancarfan i adeilad ysgol newydd a fyddai’n cael ei leoli yn y Rhws ac sydd 4.7 milltir i ffwrdd o safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. |

## 6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

| |
|---|
| **A yw’r dystiolaeth yn dangos effaith hyn (cadarnhaol a negyddol)?**<br><br>Mae’r cynnig hwn yn rhoi sylw dyledus i’r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu |

cydraddoldeb a meithrin perthynas dda fel rhan hanfodol o’r broses gwneud penderfyniadau. Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol o ran rheoli’r galw am leoedd ysgol ym Mro Morgannwg ac yn ardal y Rhws a sicrhau y gall disgyblion o fewn ystod oedran estynedig gael addysg. Bydd y cynnig hefyd yn un cadarnhaol i’r plant sy’n mynychu Ysgol Llancarfan sy’n byw yn ardal y Rhws gan y bydd ganddynt lai o daith i'r ysgol. Fel yr amlinellir uchod, nid yw mwyafrif y disgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan yn byw yn y gymuned leol. Mae 69 o ddisgyblion ar hyn o bryd yn mynychu’r ysgol sy’n byw mwy na 2 filltir i ffwrdd, ac nid yw’r rhain yn gymwys i gael cludiant am ddim. Byddai hyn yn gostwng i 42 o ddisgyblion yn dilyn symud yr ysgol i’r safle a gynigir.

Bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y rheiny sy’n byw yn nalgylch presennol Ysgol Llancarfan ac a fydd yn teithio i’r safle ysgol yn y Rhws. Bydd cludiant i’r ysgol am ddim ar gael i’r plant sy’n byw dros 2 filltir i fwrdd o’r ysgol.

**Ymhle mae’r bylchau?** Nid yw nodweddion a ddiogelir trigolion newydd yn y dyfodol sy’n deillio o’r datblygiad newydd arfaethedig yn hysbys ar y cam hwn. Gwybodaeth gyfyngedig a gedwir yn y Gyfarwyddiaeth am nodweddion a ddiogelir staff a’r corff llywodraethu ond dylai’r cynnig gael effaith niwtral ar y sawl â nodweddion a ddiogelir sy’n mynd i’r adeilad newydd. Gan nad oes ond nifer fach o staff a’r corff llywodraethu, gallai’r data hwn hefyd fod yn fodd i nodi unigolion a gwybodaeth bersonol a gedwir amdanynt. Ond fel rhan o’r ymgynghoriad rhoddwyd sawl cyfle drwy amryw ddulliau cyfrinachol i staff a llywodraethwyr fynegi pryderon am eu hamgylchiadau personol yn ogystal ag unrhyw bryderon ehangach. Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad nac ar ôl hynny y credid y caent effaith andwyol ar nodweddion a ddiogelir staff neu lywodraethwyr. O ganlyniad nid yw hyn wedi’i gynnwys yn yr asesiad hwn. Byddai’r cyngor yn sicrhau bod y Corff Llywodraethu yn cael ei gefnogi i sicrhau nad yw’r holl staff a llywodraethwyr yn cael eu heffeithio’n andwyol o ganlyniad i’w nodwedd a ddiogelir o ganlyniad i’r cynnig hwn.

**Beth wnewch chi ynglŷn â hyn?**

Câi ystyriaeth o nodweddion a ddiogelir y disgyblion, staff a’r corff llywodraethu ei hadlewyrchu yn natblygiad yr adeilad newydd e.e. drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch a thai bach niwtral o ran y rhywiau.

Nid oes modd gwybod pa nodweddion a ddiogelir y bydd gan y rhai fydd yn yr ysgol yn y dyfodol ond byddai’r adeilad newydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy’n dod i’r adeilad.

Rhoddir gwybodaeth i’r ysgol gan rieni a gweithwyr proffesiynol wrth i’r plentyn gofrestru yn yr ysgol. Mae hyn yn galluogi’r ysgol i sicrhau y gall yr ysgol fodloni eu hanghenion.

**Pa ddata monitro fyddwch yn ei gasglu?**

Cesglir data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (CYBLD) bob blwyddyn a nodir nodweddion a ddiogelir drwy'r broses hon.

**Pa mor aml fyddwch chi'n dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?**

Caiff y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ei gwblhau bob blwyddyn. Mae'r Cyngor ac ysgolion yn defnyddio'r data i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn.

**Ymhle byddwch chi'n cyhoeddi'r adroddiadau monitro a'r data?**

Cyhoeddir y Cyfrifiad Ysgolion gan Lywodraeth ar wefan StatsCymru ar gyfer pob awdurdod lleol.

Câi safonau ysgol eu monitro'n barhaus ym mhob grŵp blwyddyn gan y Corff Llywodraethu, yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De a thrwy Estyn.

Caiff safonau mewn ysgolion eu monitro'n flynyddol gan y Consortiwm a'u hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol. Bydd safonau ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â'r plant a nodwyd fel rhai gweithredu ysgol a gweithredu ysgol ychwanegol a hefyd yn rhan o'r Adroddiad Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Blynyddol a gynhelir gan Gonsortiwm Canolbarth y De mewn partneriaeth â'r ysgol.

## 7. Effaith

### A oes effaith?

Byddai effaith gadarnhaol ar bobl â'r nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd.  Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da rhwng y rhai â nodweddion a ddiogelir gwahanol.  Nid ymddengys y bu effaith negyddol ar y nodweddion a ddiogelir a nodwyd. Er cydnabyddir y bydd yn cymryd hirach i rai pobl deithio i'r ysgol, nid oes ar hyn o bryd unrhyw blant sy'n mynychu'r ysgol ag anableddau corfforol sy'n effeithio ar symudedd. Nid yw'r safle presennol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 oherwydd cyfyngiadau safle. Byddai gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch â chyfleusterau niwtral o ran y rhywiau.

Amlinellir yr effeithiau cadarnhaol isod yn yr adran berthnasol.

### Os na fydd effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hynny?  Rhowch

**dystiolaeth.**

Asesir tystiolaeth drwy broses ymgynghori a thrwy ddata ysgolion a disgyblion.

## Os yw'n debygol y bydd effaith, beth yw honno?

**Oed**

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhaliwyd yn Ionawr 2018 roedd 106 o blant ar y gofrestr gyda 90 o oedran ysgol gorfodol. Roedd 38 plentyn rhwng 4-7 oed a 68 rhwng 8 – 11 oed.

Ymatebodd 1136 o bobl i'r ddau ymgynghoriad, cwblhawyd 1049 ar-lein a chafwyd 87 fel gohebiaeth ysgrifenedig. Nid yw data oedran ond ar gael ar gyfer y sawl a oedd ar gael ar-lein yr oedd 65 o dan 18 oed, 689 rhwng 18 a 54 oed a 227 dros 55 oed. O'r rhai a ymatebodd dewisodd 158 beidio â nodi eu hoedran.

Byddai'r cynnig yn codi adeilad ysgol gynradd 210 lle ynghyd â dosbarth meithrin 48 lle rhan amser yn newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant 3-4 oed gan y caent eu haddysgu'n lleol. Byddai'r cynnig hwn yn datblygu dilyniant a pharhad yn nysg plant o'u 3 blwydd oed. Câi dull cyson o gynllunio a chyflawni'r cyfnod sylfaen (meithrin i flwyddyn dau) ei wella drwy sefydlu uned feithrin. Gallai'r dull holistig sefydledig hwn gael ei ymwreiddio o oedran cynnar.

Gan y bydd yr ysgol yn darparu lleoedd ychwanegol i blant o oedran ysgol feithrin byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant o'r ystod oedran honno. Byddai hefyd effaith gadarnhaol i'r holl grwpiau oedran cynradd eraill. Byddai'r ysgol yn gallu rhoi digon o leoedd i blant oedran Ysgol Gynradd na fyddent ar gael heb adeilad ysgol newydd.

Gan y byddai'r ysgol ar safle newydd o faint digonol i ddarparu'r nifer ofynnol o leoedd i blant oedran ysgol gynradd a fydd yn byw yn yr ardal a chaiff ei hymestyn i blant oedran meithrin, câi'r cynnig effaith **gadarnhaol** ar blant yn yr ystodau oedran hyn. Fodd bynnag, nodir yn adran 149, o ran oedran, nad yw'n berthnasol i arfer swyddogaeth o ran darparu addysg i ddisgyblion mewn ysgolion (gweler paragraff 1 Atodlen 18 i Ddeddf 2010).

**Anabledd**

Mae'r data a gedwir ar ddisgyblion wedi'i nodweddu gan Anghenion Addysgol Arbennig (AA) ac nid anabledd. Mae gan 11% o blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan AAA sy'n is na'r cyfartaledd (14%) i boblogaeth Ysgolion Cynradd Bro Morgannwg. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion ag anabledd ond hefyd disgyblion heb anabledd. Nid oes disgyblion ag anabledd sy'n effeithio ar eu symudedd ar hyn o bryd ar gofrestr yr ysgol.

Mae maint yr angen yn amrywio ar draws ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys:

| Grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
|---|
| ASD (Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig) |
| AYECH (Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol) |
| DYSL (Dyslecsia) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cyffredinol) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cymedrol) |
| ALlIC (Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) |

Dywedodd 62 (5.9%) o ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod eu gweithgareddau bob dydd wedi'u cyfyngu oherwydd cyflwr corfforol neu feddyliol. Ni ddywedodd unrhyw un o'r 62 ymatebydd y câi'r adroddiad hwn effaith andwyol ar ei anabledd.

Câi'r adeilad ysgol newydd arfaethedig ei ddylunio mewn ffordd a fyddai'n galluogi staff i fodloni anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.
Byddai'r ysgol yn cyflwyno cwricwlwm mwy pwrpasol wedi'i dargedu mwy sy'n ymatebol i alluoedd plant unigol ac sy'n sicrhau bod yr holl blant sy'n gofyn am gymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Cydnabuwyd y gallai bod rhai rhieni wedi dewis Ysgol Gynradd Llancarfan oherwydd ei bod yn ysgol fechan ac yn addas i gefnogi anghenion unigol eu plant. Gan nad yw'r Cyngor yn cynnig cau'r ysgol, byddai'r staff yn ddi-newid ac yn ymwybodol iawn o anghenion unigol disgyblion. Byddai'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion mewn sefyllfa i gysylltu â'r Cyngor yn ystod y cam dylunio i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu'n cefnogi'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y sawl sy'n cael budd o amgylchedd dysgu tawelach.

Mae nifer o elfennau dylunio a allai gael eu cynnwys i gefnogi disgyblion. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, ystafell fechan rhwng pâr o ystafelloedd dosbarth a allai gael ei defnyddio ar gyfer dysgu unigol / grŵp bach neu a allai gael ei defnyddio fel man tawel os oes angen i ddisgybl adael yr ystafell ddosbarth. Byddai defnyddio deunyddiau acwstig a chynlluniau lliw braf pwrpasol ac ati yn greadigol hefyd yn cael ei ystyried gan y tîm dylunio mewn ymgynghoriad llawn â staff, disgyblion a llywodraethwyr. Caiff yr ysgol ei dylunio fel bo mannau hyblyg y gellid eu haddasu gan ddefnyddio dodrefn at weithgareddau penodol, yn cynnwys ardaloedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Caiff yr adeilad ei ddylunio'n unol â safonau acwstig cyfredol (BB93). Bydd hyn yn diffinio'r safon perfformiad acwstig y caiff yr ysgol ei dylunio ati. Caiff yr adeilad cyfan ei ddylunio i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol o ran mynediad anabl gyda pharcio a mynediad i adeilad yr ysgol yn ogystal ag asesu ym mhob rhan o'r ysgol. Bydd golau naturiol ac awyru'n nodwedd allweddol yn yr amgylchedd dysgu newydd.

Nid yw nodweddion a ddiogelir y plant a fydd yn mynd i'r datblygiad newydd yn y Rhŵs yn hysbys eto. Mae'r data hwn yn cael ei gasglu lle y bo'n briodol yn ystod derbyn, ac mae'r

Cyngor ac ysgolion yn ei ddefnyddio i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i symud at adeilad ysgol newydd, a byddai staff yn dal i gael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a atgyfeirir at Lywodraeth Cymru a'r Cyngor er mwyn cefnogi staff yn yr ysgol a chaiff pawb sy'n cael mynediad i'r adeilad fudd o'i natur hygyrch.

Felly bydd y cynnig yn cael effaith **gadarnhaol** ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol a nodwyd yn y grŵp a ddiogelir hwn, gan y bydd ganddynt fynediad i ysgol gwbl hygyrch a ddyluniwyd i ystyried anghenion unigol ac y caiff ei rheoli gan uwch arweinwyr presennol yr ysgol.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Ni chofnodir ailbennu rhywedd i ddisgyblion oedran Cynradd ond caiff disgyblion unigol sy'n dewis byw fel arall ond am yn eu rhywedd geni gefnogaeth mewn Ysgolion Cynradd. Byddai'r holl blant yn dal i gael addysg o safon uchel ar safle'r ysgol newydd. Byddai gan yr adeilad newydd gyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl ystyried newid ysgolion oherwydd ailbennu rhywedd. Mae gan ddisgyblion a staff yr hawl i gael mynediad i'r tŷ bach sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd. Byddai unrhyw ddisgybl neu aelod o staff sydd ag angen neu awydd mwy o breifatrwydd, waeth beth yw'r rheswm sylfaenol, fynediad i dŷ bach unigol, ond ni fydd yn ofynnol i unrhyw ddisgybl neu aelod o staff ddefnyddio tŷ bach o'r fath. Byddai adeilad newydd yn rhoddi tai bach unigol y gall unrhyw un eu defnyddio er y byddai cyfleusterau ar wahân ar gael i oedolion a phlant.
Byddai disgyblion a staff Traws yn defnyddio ystafelloedd newid yn cael ei asesu fesul achos
ar y cyd a'r unigolyn dan sylw. Byddai'r ysgol yn sicrhau'r lefel uchaf o integreiddio cymdeithasol ac yn hybu cyfle cyfartal i gyfrannu mewn dosbarthiadau addysg gorfforol a chwaraeon, gan sicrhau diogelwch a chyfforddusrwydd a gwaredu unrhyw effaith andwyol ar yr unigolyn. Yn rhan fwyaf yr achosion, byddai gan ddisgyblion neu staff Traws fynediad i fan newid sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd.

Byddai symud Ysgol Gynradd Llancarfan i safle ysgol newydd felly'n cael effaith **gadarnhaol** ar unigolion a ddiogelir gan ddyletswydd ailbennu rhywedd. Byddai pob disgybl yn dal i gael addysg o safon uchel fel rhan o ysgol 'drwodd' 3 – 11 oed.
Byddai staff yn dal i gael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Byddai staff hefyd yn cael mynediad at gyfleusterau niwtral o ran y rhywiau gwell ac yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol. Câi pobl anneuaidd sy'n cynnwys staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned sy'n manteisio ar y cyfleusterau fudd o'r addasiadau niwtral o ran y rhywiau i'r ysgol a nodwyd uchod.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r adroddiad hwn effaith andwyol ar ei hunaniaeth rhywedd. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol câi'r cynnig hwn effaith

**gadarnhaol** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu'n unig)**

Noda'r ffurflen monitro cydraddoldeb y canlynol.

| Beth yw'ch statws priodasol? | |
|---|---|
| Priod | 582 (55.5%) |
| Partneriaeth Sifil | 2 (0.2%) |

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith andwyol ar ei statws priodasol. Ni chedwir y wybodaeth hon ar lefel y Gyfarwyddiaeth am staff a llywodraethwyr ond dylai'r cynnig gael effaith niwtral ar y sawl â nodweddion a ddiogelir sy'n mynd i'r adeilad newydd. Mae disgyblion yn yr Ysgol yn is nag oedran priodi cyfreithiol. Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i symud i adeilad ysgol newydd, a châi'r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Credir na fydd effaith negyddol ar ddisgyblion yn y grŵp a ddiogelir hwn gan fod y tebygolrwydd bod disgyblion yn y grŵp a ddiogelir hwn yn isel iawn oherwydd ystod oedran yr ysgol. Byddai addysg unrhyw ddisgybl a nodir yn y grŵp a ddiogelir hwn ddim yn cael ei haddasu gan y cynnig.

Byddai staff sydd ar absenoldeb mamolaeth neu sy'n feichiog ar yr adeg symud arfaethedig yn cael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar eu statws o ran hyn ond cyfeiriwyd at yr effaith, cadarnhaol a negyddol, ar blant yn y dyfodol mewn nifer fach o ymatebion. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, a châi'r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Hil**

Prif ethnigrwydd Ysgol Gynradd Llancarfan yw Gwyn – Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon gyda 97% o blant yn y categori hwn. Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd (90% Prydeinig Gwyn) poblogaeth Ysgolion Cynradd ehangach y Fro.

Gan y bydd y plant yn symud at adeilad ysgol newydd, mae'n annhebygol y byddai'r cynnig yn newid i raddau mawr broffil ethnig yr ysgol, er bod y nodwedd yn deillio o blant yn y datblygiad newydd sy'n cael ei godi yn y Rhws ar yr adeg hon yn anhysbys ar hyn o bryd.

Byddai’r holl staff, disgyblion a llywodraethwyr yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith andwyol ar eu statws priodasol. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny’n newid o ganlyniad i‘r cynnig hwn a nifer fechan y disgyblion yn y categori hwn, a châi’r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Crefydd a chred**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni fyddai parch at bob cred grefyddol ac anghrefyddol yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn. Mae’r ysgol hon yn ysgol gymunedol ac ni fyddai’r agwedd hon ar y cwricwlwm parthed crefydd a chred yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith negyddol ar eu statws o ran hyn ond cyfeiriwyd at fater ehangach nifer yr ysgolion ffydd yng Ngorllewin y Fro. Nid yw’r cynnig hwn yn lleihau nifer y lleoedd ysgolion ffydd ac mae’n cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cymunedol (nid yn rhai ffydd). Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny’n newid o ganlyniad i‘r cynnig hwn, a châi’r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Rhyw**

Ar hyn o bryd mae 49% o ddisgyblion yn ferched a 51% yn fechgyn. Hon yw’r un ganran â phoblogaeth ysgolion cynradd y Fro gyfan felly ni fyddai unrhyw effaith negyddol ganfyddedig. Poblogaeth y staff yw 62% merched a 38% dynion, o’i gymharu â phroffil Bro gyfan o 89.7% merched a 10.3% dynion ymhlith staff Ysgolion Cynradd. Fodd bynnag ychydig o staff sydd yn yr ysgol ac felly mae’r ffigur hwn yn anghymesur.

Câi plant o’r ddau ryw eu trin a’u haddysgu’n gydradd yn yr ysgol yn ei safle newydd. Ni fyddai dulliau gwahanol o addysgu neu gwricwla ar gyfer y naill ryw. Byddai’r ysgol yn ceisio lleihau – i’r graddau y bo hynny’n bosibl – arwahanu disgyblion a myfyrwyr yn ôl Rhyw. Byddai disgyblion yn dal i gael eu cefnogi i alluogi mynediad cydradd i Addysg Gorfforol a
phan fo gwersi ar wahân yn ôl rhyw/rhywedd, caent eu galluogi i gyfrannu yn y gweithgaredd sy’n cyfateb i’w hunaniaeth rhywedd petaent yn gofyn hyn. Ni fyddai’r agwedd ar reoli’r cwricwlwm yn ymwneud ag unrhyw flwch cyrhaeddiad seiliedig ar ryw a nodir yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

O’r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yn llawn neu’n rhannol

cwblhawyd 31% (325) gan ddynion
a 62.5% (656) gan fenywod.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith andwyol ar eu statws priodasol. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny’n newid o ganlyniad i‘r cynnig hwn, a châi’r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Mae cynhwysiant a pharch at eraill yn elfen annatod o’r cwricwlwm cenedlaethol. Noda egwyddorion yr arolwg ysgol a ddisgrifir yn y ‘Fframwaith Arolygu Ysgolion’ Medi 2015 y bydd arolygu’n canolbwyntio ar anghenion disgyblion a rhieni drwy werthuso i ba raddau y mae ysgolion yn rhoddi amgylchedd cynhwysol sy’n bodloni anghenion yr holl ddisgyblion waeth beth fo’u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae Llyfryn Arolygu Ysgolion Estyn hefyd yn nodi sut y bydd arolwg yn gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion unigol yn cael budd o’r ysgol ac yn dweud y gallai fod yn berthnasol rhoi sylw i’r rhai â nodweddion a ddiogelir gan gynnwys felly disgyblion trawsryweddol. O dan ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bydd Estyn yn chwilio am dystiolaeth pan fo disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a pharch at amrywiaeth o ran e.e. rhywedd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried mathau, cyfraddau a phatrymau bwlio ac effeithiolrwydd gweithredoedd yr ysgol i atal a mynd i’r afael â phob ffurf ar fwlio ac aflonyddu – gan gynnwys seiber-fwlio a bwlio ar sail rhagfarn ar anghenion addysgol, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hil, crefydd a chred, ailbennu rhywedd neu anabledd.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Noda’r ffurflen monitro Cydraddoldeb y canlynol gan ymatebwyr.

| **Pa rai o’r opsiynau hyn sy’n disgrifio’r ffordd rydych yn meddwl amdano’ch hun orau?** | |
|---|---|
| 756 (72%) Heterorywiol | 14 (1.3%) Hoyw neu Lesbaidd |
| 1 (0.09%) Deurywiol | 5 (0.5%) Arall |
| 182 (17.3%) Mae’n well gennyf beidio â dweud | |

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith andwyol ar eu statws priodasol. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny’n newid o ganlyniad i‘r cynnig hwn, a châi’r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Y Gymraeg –** Bydd y galw ymhlith rhieni am addysg gynradd Gymraeg yn dal i gael ei ateb drwy ysgol y dalgylch Ysgol Dewi Sant**.**

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn ysgol Saesneg ac ni fydd y cynnig hwn yn newid hynny. Roedd y Cyngor yn llwyddiannus iawn yn cynyddu capasiti y sector cynradd Cymraeg ym Mro Morgannwg dan Fand A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn, blaenoriaeth allweddol i Fand B yw cynyddu capasiti yn y sector uwchradd Cymraeg yn ogystal ag ystyried datblygiadau pellach ar lefel gynradd. I sicrhau bod y Cyngor yn mynd i'r afael â tharged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd y Cyngor yn cyflawni rhaglen weithredol o fynd i'r afael ag angen o ran addysg Gymraeg a Saesneg.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith andwyol ar eu statws priodasol. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol câi'r cynnig hwn effaith **niwtral** ar y grŵp a ddiogelir hwn.

**Hawliau Dynol**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen UNICEF, *A Human Rights-Based Approach to Education For All,* fel rhan o'r gwaith o lunio'r ymgynghoriad hwn. Cynghora'r ddogfen i Bennod 2 gyflwyno fframwaith cysyniadol i'r dull seiliedig ar hawliau at addysg sy'n ymgorffori tri dimensiwn rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol.
Hawlia nad oes modd i hawliau dynol sy'n gysylltiedig ag addysg gael eu gwireddu onid yw a nes bod y tri hyn wedi'u cyflawni:

• Yr hawl i gael mynediad at addysg - hawl pob plentyn ar addysg ar sail cyfle cyfartal a heb wahaniaethu ar unrhyw sail. I gyflawni'r nod hwn, rhaid i addysg fod ar gael ac yn gynhwysol a chyraeddadwy i bob plentyn.

• Yr hawl ar addysg o safon – hawl pob plentyn ar addysg o safon sy'n ei alluogi i gyflawni ei botensial, gwireddu cyfleodd cyflogi a datblygu sgiliau bywyd. I gyflawni'r nod hwn, mae angen i addysg fod o gylch y plentyn, yn berthnasol a chofleidio cwricwlwm eang, a chael adnoddau priodol a chael ei monitro'n briodol.

• Yr hawl i gael parch yn yr amgylchedd dysgu – hawl pob plentyn i'w urddas annatod a chael ei hawliau dynol cyffredinol wedi'u parchu o fewn y system addysg. I gyflawni'r nod hwn, rhaid i addysg gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â hawliau dynol gan gynnwys parchu pob plentyn, cyfleoedd i gyfranogi'n ystyrlon, rhyddid rhag pob ffurf ar drais, a pharch at iaith, diwylliant a chrefydd.

Cyflwynwyd y cynnig hwn i fynd i'r afael â'r hawl i gael mynediad at addysg, i gael addysg o safon a chael yr hawl i ennyn parch o fewn yr amgylchedd dysgu i bob un o ddisgyblion Bro Morgannwg.

Byddai symud yr ysgol i adeilad mwy â dalgylch newydd â niferoedd sylweddol yn:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach gan ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion.
- Sicrhau bod yr amgylchedd ar agor i bawb.

- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid ac a fydd yn heriol a chefnogi plant i gyflawni eu potensial llawn.
- Gwella mynediad a rhyngweithio cymunedol dryw ddefnyddio cyfleusterau addysgiadol yr ysgol gan hefyd fodloni anghenion yr ysgol.
- Sefydlu uned feithrin sy'n cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy o ddarparu addysg i'r 21ain ganrif sy'n bodloni safonau adeiladau cenedlaethol ac yn lleihau costau parhaus ac ôl-droed carbon adeiladau addysg.
- Bydd yr adeilad newydd yn cyrraedd safonau Rhagorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ac yn cael ei adeiladu i sgôr A y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Datblygir ethos a diwylliant yr ysgol ymhlith plant o oedran iau, gan arwain at berthnasau rhyngbersonol effeithiol a hunan-barch gwell.
- Sicrhau dull cyson o 3-11 oed i hyrwyddo ac ategu dilyniant a chynnydd i ddisgyblion gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.
- Byddai'r holl gynllunio cwricwlwm a chyrchu adnoddau yn arwain yn llwyddiannus o wybodaeth a phrofiadau blaenorol disgyblion ac yn ennyn diddordeb.
- Cefnogi disgyblion i ddatblygu eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a defnyddio'u gwybodaeth bwnc yn fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.
- Gwella'r trefniadau sydd eisoes yn dda ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion o oedran iau.
- Estyn a datblygu partneriaethau â theuluoedd o'r cyfle cyntaf i atgyfnerthu pontio cartref / ysgol.

## Sut rydych yn gwybod?

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir fel y nodir uchod.**

Caiff data ei ddarparu a'i ddadansoddi trwy ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion a gesglir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data demograffig, ysgol a disgyblion cyfredol i lywio'r cynnig. Byddai'r staff hefyd yn parhau i gael eu hamddiffyn dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi'r staff yn yr ysgol.

## Beth ellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir fel y nodir uchod.**

Caiff argaeledd yr ysgol, ei manteision a'r cyfleusterau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yng nghanllaw'r Cyngor i rieni ar Dderbyniadau Ysgol i rieni ystyried wrth wneud penderfyniad pa ysgol yr hoffent i'w plant fynd iddi. Mae ystyried yr angen i symud cyfle cyfartal yn ei flaen yn cynnwys ystyried yr angen i ddileu neu leihau anfanteision y maent yn eu dioddef. Felly ystyrir yr angen i gymryd camau i fodloni anghenion pobl o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i bobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac annog i rheiny sydd â nodwedd a ddiogelir i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r camau wedi'u cynnwys yn y gwaith o fodloni anghenion person anabl yn cynnwys camau i ystyried anabledd y person a fydd yn allweddol o ran dylunio'r adeilad newydd. Mae ystyried 'magu perthnasau da' yn cynnwys ystyried yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn

dealltwriaeth. Dyma agwedd bwysig ar gyflawni'r cwricwlwm ac ni fyddai'n newid o ganlyniad i'r cynnig.

Cydnabyddir y gallai cydymffurfio â'r ddyletswydd gynnwys trin pobl yn well nag eraill, yn unol â'r gyfraith gwahaniaethu.

**Oedran**

Gan y byddai'r ysgol yn parhau i gynnig digon o leoedd i blant oedran ysgol gynradd ac y byddai'n cael ei hymestyn i roi lle i blant oedran meithrin, byddai'r cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar blant. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol.

**Anabledd**

Ar hyn o bryd mae safle ysgol Llancarfan yn rhy fach ac nid oes modd ei ymestyn i fodloni gofynion Bwletin Adeiladu a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Nid yw'r safle yn gwbl hygyrch gan ei fod yn gyfyngedig ac nid yw'r adeiladau yn bodloni canllaw dylunio Ysgolion yr 21ain Ganrif. Byddai'r adeilad newydd hwn yn cael ei adeiladu i sicrhau ei fod yn gwbl hygyrch i bawb, ni waeth natur eu hanabledd.

Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai elfennau dylunio yn cael eu hymgorffori i gefnogi disgyblion megis ystafell fach rhwng dwy ystafell ddosbarth y gellir ei defnyddio ar gyfer dysgu unigol neu ddysgu i grwpiau bach neu fel lle seibiant pe bai angen seibiant o'r ystafell ddosbarth ar ddisgybl. Câi'r ysgol ei dylunio fel bod mannau hyblyg y gellid eu haddasu gan ddefnyddio dodrefn at weithgareddau penodol, gan gynnwys ardaloedd tawel ar gyfer dysgu unigol. Câi'r ysgol ei dylunio'n unol â safonau acwstig cyfredol (BB93); bydd hyn yn diffinio'r safon perfformiad acwstig y caiff yr ysgol ei dylunio ati. Caiff yr adeilad cyfan ei ddylunio i gydymffurfio â rheoliadau adeiladu cyfredol o ran mynediad anabl gyda pharcio a mynediad i adeilad yr ysgol yn ogystal ag asesu ym mhob rhan o'r ysgol.
Bydd golau naturiol ac awyru'n nodwedd allweddol yn yr amgylchedd dysgu newydd.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd**

Byddai pob plentyn yn cael ei gefnogi i gael addysg o ansawdd uchel pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ni waeth hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd gan yr ysgol gyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl ystyried newid ysgolion oherwydd ailbennu rhywedd.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol.

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

Byddai'r staff hefyd yn parhau i gael eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi'r staff yn yr ysgol.

Mae cynwysoldeb a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Byddai'r staff hefyd yn parhau i gael eu hamddiffyn dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi'r staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

**Hil**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

**Crefydd a chred**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

**Rhyw**

Byddai plant o'r ddau ryw yn parhau i gael eu trin a'u haddysgu'n gyfartal yn yr adeilad ysgol newydd. Ni fyddai unrhyw wahanol ddulliau o addysg neu gwricwla ar gyfer y naill ryw na'r llall. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

**Cyfeiriadedd rhywiol**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol.

## Beth ellir ei wneud i leihau'r risg o effaith negyddol?

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir fel y nodir uchod.**

Darperir trafnidiaeth ysgol am ddim i'r ysgol ar gyfer y plant hynny fydd yn rhaid iddynt deithio o ardal Llancarfan ar ôl i'r ysgol symud i'r safle newydd. Ar ôl symud i'r safle newydd, o'r disgyblion â nodweddion a ddiogelir sy'n eu rhoi eu hunain mewn grŵp lleiafrifol sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, ni fydd 66% ar y gofrestr mwyach a bydd 33% yn byw yn agosach at safle newydd yr ysgol Ni wybyddir nodweddion a ddiogelir unrhyw ddisgyblion y dyfodol. Byddai trafnidiaeth ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi trafnidiaeth y Cyngor sy'n darparu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim i blant sy'n byw mwy na 2 filltir o'u hysgol addas agosaf. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y byddai angen addasiad rhesymol ar gyfer unrhyw blentyn, ond anogir rhieni i drafod unrhyw anghenion gyda'r ysgol a'r cyngor, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu yn ystod y cyfnod pontio.

Felly byddai unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llancarfan ar y dyddiad symud i'r safle newydd ac sy'n byw mwy na 2 filltir o'r safle newydd yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim. Ni fyddai unrhyw ddisgybl nad yw'n byw 2 filltir o safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan o ganlyniad i'r ail-leoliad yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim mwyach.

Mae'n debygol y byddai dau fws mini'n gwasanaethu'r ysgol, un o ardal Llancarfan ac un arall yn gwasanaethu Llancatal a Llanbydderi er mai'r adran trafnidiaeth ysgol fyddai'n penderfynu ar yr union drefniadau. Yn gyffredinol cynigir darpariaeth hebrwng ar fysus mini â 16 sedd a mwy er mwyn goruchwylio plant ar eu taith i'r ysgol ac yn ôl. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithredu nifer o fysus i ysgolion cynradd ledled Bro Morgannwg sy'n teithio'n fwy na 5 milltir i ysgol. Nid yw'n anarferol i blant ifanc deithio ar drafnidiaeth ysgol. Mae asesiadau risg, hyfforddiant a phrosesau diogelu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch wedi'u hymwreiddio'n gadarn yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

Er na fydd sawl rhiant yn gallu cerdded gyda'u plant i'r ysgol, byddai'r bws ysgol yn galluogi rhieni i ddefnyddio trafnidiaeth ysgol a phlant i deithio ynghyd.

## Oes angen am driniaeth fwy ffafriol i gyflawni canlyniadau cyfartal?
**(Anabledd yn unig)**

Nid yw'r cyfleusterau cyfredol yn gwbl hygyrch a byddai angen mynd i'r afael â hyn mewn modd cadarnhaol yn rhan o'r cynnig. Caiff yr adeilad ei ddylunio i fod yn gwbl hygyrch. Hefyd, caiff ystafelloedd dosbarth bach ac ardaloedd seibiant tawel eu hystyried yn rhan o'r cynllun dylunio er mwyn sicrhau bod modd darparu ar gyfer plant sydd angen amgylchedd dysgu llai prysur a thawelach.

**Fydd yr effaith yn gadarnhaol, negyddol neu niwtral?**

Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion a ddiogelir fel y nodir uchod.

Oedran - Cadarnhaol
Anabledd - Cadarnhaol
Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth o ran rhywedd - Cadarnhaol
Priodas a phartneriaeth sifil - niwtral
Beichiogrwydd a Mamolaeth - niwtral
Hil - niwtral
Crefydd a chred - niwtral
Rhyw - niwtral
Cyfeiriadedd rhywiol - niwtral

I gloi, nid oes risg go iawn o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol gan fod y Cyngor yn dilyn nod dilys (sef, gwell capasiti ac effeithlonrwydd addysg) ac mae'r penderfyniad i gyhoeddi'r cynigion i wneud newidiadau a reoleiddir yn ffordd gymesur o gyflawni'r nod hwn.

## 8. Monitro effaith barhaol

**Dyddiad y byddwch yn monitro cynnydd**

Gwneir data PLASC yn flynyddol ac os caiff ei gymeradwyo gan y cabinet caiff cynllun project ar gyfer y cynnig hwn ei ddechrau. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y ddogfen hon. Defnyddir unrhyw newidiadau i ganlyniadau sydd o ganlyniad i'r dadansoddiad parhaol hwn i ddiweddaru'r asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw gamau lliniarol angenrheidiol.

**Mesurau y byddwch yn eu monitro**

Caiff data PLASC ar gyfer pob disgybl ei ddadansoddi a'i fonitro yn ôl Oedran, Anabledd, Hil, Crefydd a chred a'r iaith Gymraeg. Mae'r Tîm Cydraddoldeb yn monitro data gwasanaeth ac yn rhoi gwybodaeth yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol. Mae'r mesurau a nodir ar gyfer addysg disgyblion yn fater i'r corff llywodraethu yn ei Gynllun Gwella'r Ysgol.

**Dyddiad y byddwch yn adolygu gweithredu'r cynnig a'i effaith**

Yn amodol ar gymeradwyaeth y cabinet, bydd yr ysgol yn derbyn mwy o gymorth a heriau yn y flwyddyn ar ôl symud fel sy'n digwydd pan fo pob ysgol yn cael ei had-drefnu. Darperir hyn gan Gonsortiwm Canolbarth y De a'r Cyngor. Ar ôl hynny, bydd yr ysgol yn

destun monitro a herio rheolaidd gan Ranbarth Canolbarth y De, Estyn a'r Cyngor.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraeth ysgolion i sicrhau bod safonau'n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel a bod arweinyddiaeth a llywodraethu'n gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant mewn ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) ym Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol ym Mro Morgannwg.

Archwilir ysgolion yn rhan o raglen archwilio ysgolion genedlaethol. Diben archwiliad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn).

Ym Medi 2017, cyflwynwyd Fframwaith Archwilio Cyffredinol i Ysgolion gan Estyn i bobl ysgol ledled Cymru. Archwiliwyd Ysgol Gynradd Llancarfan ddiwethaf ym Mawrth 2014 dan Fframwaith Archwilio Ysgolion blaenorol Estyn a roddodd sgoriau ar gyfer 10 dangosydd ansawdd.

Dan y fframwaith hwn, beirniadodd yn gyffredinol archwilwyr berfformiad cyfredol yr ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwella.

## 9. Camau pellach o ganlyniad i'r asesiad hwn o'r effaith ar gydraddoldeb

| **Canlyniadau Posibl** | **Yn berthnasol** |
|---|---|
| **Dim newid mawr** | Ie |
| **Newid y polisi** | |
| **Parhau â'r polisi** | |
| **Atal a dileu'r polisi** | |

## 10. Canlyniadau a Chamau Gweithredu

| |
|---|
| **Camau gweithredu a argymhellir i'r uwch dîm rheoli** |
| **Canlyniad yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig gan yr uwch dîm rheoli** |

## 11. Nodyn Pwysig

**Rhaid i chi fanylu ar effeithiau rydych wedi'u nodi yn eich adroddiad i'r cabinet wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer eich cynnig.**

## 12. Cyhoeddi

**Ble byddwch yn cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?**

Gwefan Bro Morgannwg

**Yn ogystal â'r lleoliadau rydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhaid i chi anfon copi at Tim Greaves, Cyd-lynydd Cydraddodleb, i'w cyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg.**

## 13. Awdurdodi

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan (enw)** | Lisa Lewis |
| **Teitl swydd (uwch reolwr)** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31/08/2018 |
| **Dyddiad adolygu** | I gael ei adolygu ar ôl y cyfnod gwrthwynebu statudol, os â’r cynnig yn ei flaen |